# Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat
# Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru
# Cylch Gorchwyl

**1. Pwrpas a rôl**

Bydd Bwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat yn gweithredu fel corff ymgynghorol strategol nad yw'n gwneud penderfyniadau i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Ei bwrpas yw rhoi gwybodaeth sector preifat amserol, her adeiladol, gwybodaeth am y farchnad a chefnogaeth lysgenhadol i helpu i lunio blaenoriaethau rhanbarthol ar draws llesiant economaidd, trafnidiaeth, cynllunio strategol, ynni a chyfleoedd buddsoddi cysylltiedig.

Bydd gwerth y Bwrdd yn cael ei fesur yn ôl ansawdd, perthnasedd ac effaith weladwy ei gyngor, nid yn ôl awdurdod i wneud penderfyniadau ffurfiol. Cysylltir ag ef yn ddigon cynnar i gyfrannu a bod yn rhan o ddatblygiad polisi.

**2. Egwyddorion gweithredu**

- **Ymgysylltu yn gynnar:** Cyngor gan Fwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat a ddarperir yn ystod camau ffurfiannol strategaethau, datblygu polisi, rhaglenni gwaith a chyfleoedd buddsoddi.
- **Gofyn yn glir, ymateb clir:** gofyn am gyngor penodol a'r dull arfaethedig ar gyfer cynnwys y cyngor wrth ddatblygu polisi.
- **Ffocws ar ganlyniadau:** bydd cyfarfodydd yn blaenoriaethu materion strategol byw, adborth gan weithgorau ehangach, risgiau a chyfleoedd.
- **Parch at lywodraethu:** bydd y Bwrdd yn darparu cyngor a her wrth barchu cyfrifoldebau statudol, sofraniaeth leol a rolau gwneud penderfyniadau ffurfiol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ac awdurdodau cyfansoddiadol.

**3. Swyddogaethau craidd**

- Darparu gwybodaeth am y farchnad, deallusrwydd busnes a her ymarferol i gefnogi strategaeth ranbarthol, cynllunio cyflawni a chynigion buddsoddi.
- Rhoi cyngor ar gyfleoedd a risgiau sy'n effeithio ar flaenoriaethau'r rhanbarth o ran yr economi, trafnidiaeth, cynllunio strategol, ynni, sgiliau, twristiaeth, digidol, tai a buddsoddi.
- Cefnogi datblygu a phrofi cynigion strategol cyn iddynt symud ymlaen i lywodraethu ffurfiol.
- Cymryd rhan mewn grwpiau gorchwyl a gorffen penodol i'r sector lle mae angen mewnbwn arbenigol ar fater, cynnig neu gyfle diffiniedig.
- Bod yn llysgenhadon ar gyfer De-orllewin Cymru drwy hyrwyddo cryfderau'r rhanbarth, cyfleoedd buddsoddi a blaenoriaethau strategol trwy rwydweithiau busnes, sector a chenedlaethol perthnasol.

- Cryfhau cysylltiadau â buddsoddwyr, cyllidwyr, sefydliadau angori, busnesau a phartneriaid ehangach lle gall hyn ychwanegu gwerth at uchelgeisiau rhanbarthol.

**4. Aelodaeth**
Bydd aelodaeth yn cael ei seilio ar sgiliau, profiad a chyfraniad. Bydd y Bwrdd yn cynnwys lleisiau amlwg o'r sector preifat sydd â hygrededd, profiad ymarferol o gyflawni, a'r gallu i ddarparu mewnwelediad strategol ar draws blaenoriaethau'r rhanbarth.

Rhesymoli'r Bwrdd i gefnogi trafodaeth ystyrlon a chyfraniad gweithredol, ac mae cyngor amserol yn allweddol. Bydd aelodaeth yn cael ei hadolygu yn erbyn matrics sgiliau a blaenoriaethau clir, gan sicrhau bod arbenigedd cyfunol y Bwrdd yn cyd-fynd â rhaglen waith gyfredol a newydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Mae hyn yn cynnwys ystyried ble mae angen aelodaeth sefydlog, ble mae mewnbwn arbenigol yn well trwy grwpiau gorchwyl a gorffen, a ble mae angen recriwtio wedi'i dargedu i lenwi bylchau o ran arbenigedd sector, daearyddiaeth, statws, persbectif buddsoddwyr neu amrywiaeth.

Dewisir aelodau'r Bwrdd ar sail sut maent yn gweddu i'n blaenoriaethau rhanbarthol sy'n cynnwys:

- Llesiant economaidd
  - Ynni, Sero Net a'r Economi Werdd
  - Gweithgynhyrchu, Technoleg a Deunyddiau
  - Iechyd a Gwyddorau Bywyd
  - Economi 'Profiad'
  - Sector Creadigol a Digidol
  - Technolegau amaethyddol a chynhyrchu bwyd gwerth uchel
- Trafnidiaeth
- Cynllunio strategol

Bydd penodiadau am gyfnod penodol o ddwy flynedd, gyda'r opsiwn o adnewyddu lle bo cyfraniad, presenoldeb ac addasrwydd strategol yn parhau i fod yn gryf. Bydd matrics sgiliau a chynrychiolaeth yn cael ei gynnal a'i adolygu'n flynyddol i lywio cynllunio olyniaeth a recriwtio wedi'i dargedu.

**5. Cadeirydd a'r berthynas â Chyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru**
Caiff y Cadeirydd ei ddewis gan y Bwrdd yn flynyddol. Gellir cyfethol y Cadeirydd i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru mewn rôl heb bleidlais am gyfnod o flwyddyn, a chaiff y cyfnod ei adnewyddu yn ôl disgresiwn y Cyd-bwyllgor.

Bydd y Cadeirydd, gyda chefnogaeth y Prif Swyddog Gweithredu neu'r uwch-swyddog enwebedig, yn helpu i lunio agendâu, yn sicrhau bod y Bwrdd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol, ac yn cynnal llwybr clir rhwng cyngor Bwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat a threfniadau llywodraethu ffurfiol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

**6. Cyfarfodydd a rhaglen waith**

Bydd y Bwrdd fel arfer yn cyfarfod bob chwarter, ond trefnir sesiynau ffocws ychwanegol os oes mater strategol penodol, cynnig buddsoddi neu gyfle yn codi lle mae gofyn cael cyngor amserol y sector preifat. Gellir cynnal cyfarfodydd yn rhithwir, wyneb yn wyneb neu'n hybrid, a phenderfynir ar y fformat yn ôl natur yr agenda a'r angen i fwyhau cyfraniad.

Bydd blaenraglen waith dreigl yn cael ei chynnal a'i hadolygu ym mhob cyfarfod. Dylai hyn nodi'r eitemau strategol sydd i ddod, y cam lle mae angen cyngor Bwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat, y swyddog arweiniol, y cwestiwn penodol ar gyfer y Bwrdd, a'r llwybr ar gyfer adrodd cyngor yn ôl i'r broses lywodraethu neu gyflawni berthnasol.

Mae'n ofynnol dosbarthu agendâu, papurau a cheisiadau clir am gyngor o leiaf bum diwrnod gwaith cyn pob cyfarfod. Dylid dosbarthu cofnodion, nodiadau gweithredu a chrynodebau o gyngor yn brydlon ar ôl cyfarfodydd, a'u defnyddio i gynnal cofnod gweithredu ac adborth byw.

**7. Grwpiau Gorchwyl a Gorffen**
Gellir sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen trwy gytundeb rhwng y Cadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredu neu'r uwch-swyddog enwebedig, a swyddogion arweiniol perthnasol. Yn achos pob grŵp, rhaid cael eglurder o ran ei bwrpas, amserlen, aelodaeth, llwybr adrodd ac allbwn disgwyliedig. Gall grwpiau gynnwys aelodau o Fwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat, swyddogion, ac arbenigwyr allanol a wahoddir lle mae hyn yn ychwanegu gwerth.

Bydd grwpiau gorchwyl a gorffen yn cael eu defnyddio i gynyddu mewnbwn arbenigol, profi cynigion, nodi risgiau, datgloi rhwydweithiau, a darparu nodiadau cyngor byr, ymarferol i'w hystyried trwy'r swyddog priodol neu lwybr llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

**8. Yr hyn y disgwylir i aelodau ei wneud**

- Mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd a rhoi gwybod i swyddogion ymlaen llaw pan nad yw'n bosibl iddynt fod yno.
- Paratoi ar gyfer cyfarfodydd a chyfrannu'n adeiladol, gan ddefnyddio'u harbenigedd yn y sector, rhwydweithiau a phrofiad cyflawni ymarferol.
- Parchu cyfrinachedd, sensitifrwydd masnachol a natur ymgynghorol y rôl.
- Datgan unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddedig mor gynnar ag sy'n bosibl.
- Cefnogi'r rhanbarth fel llysgenhadon lle bo'n briodol, gan sylweddoli nad yw aelodau'n siarad ar ran Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru oni bai eu bod wedi cael awdurdod penodol i wneud hynny.

Os nad yw aelod yn gallu mynychu'n rheolaidd neu gyfrannu at y rhaglen waith, bydd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredu yn ystyried a yw aelodaeth barhaus dal yn briodol, gan roi cyngor i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

**9. Cymorth gan swyddogion ac integreiddio**
Bydd swyddogion arweiniol yn gyfrifol am gyflwyno eitemau yn ystod y cam datblygu cywir, gan nodi'r cyngor penodol y gofynnir amdano, ac esbonio sut caiff mewnbwn

Bwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat ei ddefnyddio. Dylid cynnwys Bwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat yn y blaen-gynlluniau perthnasol er mwyn ceisio cyngor yn gynnar wrth ddatblygu'r polisi yn hytrach na'r pwynt adrodd terfynol.

Bydd y swyddog a enwir yn cefnogi'r Bwrdd drwy gynnal y flaenraglen waith, y cofnod o gamau gweithredu ac adborth, y matrics aelodaeth, y papurau cyfarfod a'r adolygiad effaith blynyddol.

**10. Gwrthdaro buddiannau ac ymddygiad**
Bydd yn ofynnol i holl gynrychiolwyr y sector preifat lofnodi Cytundeb Ymgynghorwyr. Bydd hyn yn cadarnhau'r disgwyliadau o ran cyfrinachedd, gwrthdaro buddiannau, ymddygiad, defnyddio gwybodaeth a statws ymgynghorol aelodau. Y pwrpas yw galluogi cyngor adeiladol gan y sector preifat gan atal ar yr un pryd unrhyw ddylanwad diangen neu fantais annheg i sefydliadau unigol.

**11. Cadw cofnod, crynodeb o gyngor ac adborth**
Bydd cyfarfodydd yn cael eu cofnodi trwy gofnodion cryno neu nodiadau gweithredu. Ar gyfer eitemau agenda o sylwedd, dylai crynodeb o gyngor nodi'r mater a ystyriwyd, y pwyntiau cyngor allweddol, unrhyw risgiau neu gyfleoedd a nodwyd, camau y cytunwyd arnynt, arweinwyr cyfrifol a'r llwybr ar gyfer ymateb neu uwchgyfeirio.

Bydd eitem adborth sefydlog yn cael ei chynnwys ar bob agenda i ddangos beth sydd wedi digwydd ers y cyfarfod blaenorol, sut mae cyngor wedi cael ei ddefnyddio, a lle mae angen mewnbwn pellach.

**12. Adolygu ac effaith**
Bydd effeithiolrwydd Bwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat yn cael ei adolygu'n flynyddol. Bydd hyn yn cynnwys presenoldeb, cydbwysedd aelodaeth, defnydd o grwpiau gorchwyl a gorffen, prydlondeb ymgysylltu, ansawdd papurau, eglurder camau dilynol, a thystiolaeth o ddylanwad ar strategaethau rhanbarthol, cynigion neu weithgarwch cyflawni.

Bydd datganiad effaith blynyddol ar gyfer Bwrdd Ymgynghorol y Sector Preifat yn cael ei baratoi i'w nodi gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru. Dylai'r datganiad hwn grynhoi cyfraniad y Bwrdd, y cyngor a roddwyd, y camau a gymerwyd, newidiadau i'r aelodaeth, gwersi a ddysgwyd a blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf.